**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W. I. Hughes, W. T. Hughes, Eric Jones, R. Dylan Jones, Eric Roberts, Ieuan Williams, John Penri Williams. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (JHJ)<br>Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM)<br>Rheolydd Sgriwtini (BAS)<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Eurfryn Davies, Peter Rogers, Keith Roberts, K. P. Hughes, T. Lloyd Hughes (Aelodau Portffolio) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Comisiynwyr Byron Davies, Mick Giannasi, |

---

Draft

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Swyddog nac Aelod.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2011.

## 3 EIN CYNGOR, EICH CYFRANIAD – SIAPIO BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL 2012-2015

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i'w drafod. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y broses ymgynghori gyhoeddus a gynhelir ar hyn o bryd ar Ganlyniadau Strategol y Cyngor a'i strategaeth ariannol am y tair blynedd nesaf. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) y bydd y ddogfen derfynol a'r Cynllun Busnes Corfforaethol 3 Blynedd yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo yn y cyfarfod o'r Cyngor Sir ym Mawrth 2012. Crynhodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen y canlyniadau ymgynghori hyd yma.

Mynegodd yr Aelodau siom ynghylch y ffigyrau presenoldeb ar gyfer y cyfarfodydd ac roeddent hefyd yn teimlo y dylid cynnal cyfarfodydd ymgynghori mewn ardaloedd gwledig yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd dalgylchoedd ysgolion uwchradd. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod y mater hwn yn cael sylw a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal cyfarfodydd mewn siopau, llyfrgelloedd ac ati fel rhan o'r adolygiad o arferion cyfredol.

Crynhodd y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen yr ymateb i'r 4 canlyniad allweddol h.y.

(i) Bod gan Ynys Môn economi wledig lewyrchus a ffyniannus.
(ii) Bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial.
(iii) Bod pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel.

(iv) Bod pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn diogelu ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Roedd yn credu bod (i) a (ii) yn dylanwadu ar ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Cafwyd ymateb annisgwyl i (iii) ac ystyriwyd mai (iv) oedd y lleiaf pwysig.

Roedd tri chwestiwn yn codi o'r canlyniadau arfaethedig:-

- Ydi'r canlyniadau arfaethedig yn ddigonol ar gyfer gweithgaredd y Cyngor am y 3 blynedd nesaf;
- A oes canlyniadau pellach y gellid gweithio tuag atynt;
- Pa fesurau dylid eu defnyddio i ddangos a lwyddwyd i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Gwnaeth yr aelodau y sylwadau isod:-

- Dylid gosod blaenoriaethau lle mae gan y Cyngor y dylanwad mwyaf a dylent ganolbwyntio ar ddatblygu'r potensial cyfredol tra'n sicrhau gwerth am arian;
- Dylai'r ddogfen fod yn rhwydd i'w darllen
- Dylid ymgorffori cynllun busnes fel rhan o'r ddogfen;
- Dylid gosod targedau adrannol o un ai 8% dros 3 blynedd neu 3% bob blwyddyn a dylid buddsoddi unrhyw arbedion dros ben yng ngwasanaethau'r adran honno;
- Ni ddylid codi ffioedd a thaliadau ar yr un raddfa i bawb - mae Gofal Cartref yn wasanaeth hanfodol tra bod gwasanaethau eraill yn rhai dewisol a dylai unrhyw gynnydd a gynigir mewn ffioedd adlewyrchu'r ffactor pwysig hwnnw.

Cadarnhaodd y Comisiynydd Davies nad oes penderfyniad wedi ei wneud mewn perthynas â'r Dreth Gyngor a chadarnhaodd hefyd mai'r Cyngor Sir fyddai'n gwneud y penderfyniad.

*Yn y fan hon, rhannodd Aelodau'r Pwyllgor yn ddau grŵp, gyda'r naill a'r llall yn cael eu hwyluso gan Swyddog Sgriwtini a chyfraniadau gan Swyddog Polisi.*

Roedd y pwyntiau cyffredinol a wnaed gan y Grwpiau fel a ganlyn:

**Cadw Llywodraethu Corfforaethol da fel blaenoriaeth:-** mae llywodraethu corfforaethol gwael wedi ei grybwyll dro ar ôl tro gan y Rheoleiddwyr ac, o'r herwydd, rhaid iddo barhau fel blaenoriaeth bwysig fel bod modd i ni gyflawni pob un o'r 4 canlyniad arfaethedig.

**Parhau i ddarparu Gwasanaethau Statudol Gofynnol** - dylwn roi blaenoriaeth i grwpiau bregus, er enghraifft Gwasanaethau i Blant a Phobl Hŷn.

**Rhesymoli asedau fel ffordd bwysig o gynyddu arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal gwasanaethau.** Enghraifft: Defnyddio ein hysgolion neu ein llyfrgelloedd ac ati i letya'r ddau wasanaeth.

**Ffactorau Demograffig lleol i arwain y drafodaeth ar wneud penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau** h.y.: poblogaeth sy'n heneiddio yn Ynys Môn, ynghyd â gostyngiad yn nifer y bobl dan 21 oed. Rhaid i'r pwyslais fod ar gwmnïau yn cwrdd â'r gost o ran pwysau ar wasanaethau/isadeiledd.

Mewn perthynas â'r blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig, awgrymwyd y newidiadau isod a gwnaed argymhellion fel a ganlyn:-

Draft

1. **Bod gan Ynys Môn economi wledig lewyrchus a ffyniannus**
    a. Mae'n bwysig fod cwmnïau lleol mewn gwell sefyllfa i fedru tendro am gontractau'r Awdurdod Lleol - dulliau craffach o ddyfarnu contractau sy'n rhoi mwy o gyfleon i gwmnïau lleol heb dorri rheolau.
    b. Adolygu a gwella gwasanaethau busnes a chymorth i fusnesau bach a chanolig lleol.
    c. Aelodau etholedig lleol fel 'Eiriolwyr Busnes'
    d. Bod yn fwy 'agored' i fusnesau yn dod i Ynys Môn.

2. **Bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn botensial**
    a. Bydd y cwmnïau mwy yn hyfforddi pobl ifanc ac yn dod â hyfforddiant i'r unigolyn, trwy ddefnyddio ystafelloedd gweigion mewn ysgolion.
    b. Gweithio'n agosach gyda phartneriaid (gan gynnwys ysgolion, cynghorau ieuenctid a grwpiau busnes ifanc) i ddarparu mwy o gyfleon i bobl ifanc.
    c. Pwysig hyrwyddo manteision mentoriaid a modelau rôl, a defnyddio adnoddau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.
    d. Pwysigrwydd adnabod pobl ifanc nad ydynt yn 'academaidd' yn gynharach fel bod modd rhoi hyfforddiant a datblygiad priodol iddynt i'w cynorthwyo i ennill sgiliau neu grefft ar ôl 16 oed.

3. **Bod pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel**
    a. Pwysig bod digon o dai iach a diogel ar gyfer trigolion Ynys Môn.

4. **Bod pobl Ynys Môn yn mwynhau, diogelu a gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**
    a. Pwysig diogelu'r hyn sydd gennym.
    b. Angen adolygu'r modd o farchnata a hyrwyddo'r Ynys, i fanteisio ar ein hanes a'n treftadaeth.

**PENDERFYNWYD y dylid anfon y newidiadau a'r awgrymiadau uchod i'r Uned Bolisi i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y blaenoriaethau corfforaethol.**

**4 BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

Cyn trafod y Blaenraglen Waith, cododd mater o ran aelod digyswllt o'r Pwyllgor hwn nad oedd yn mynychu'r Pwyllgor.

**CYTUNWYD bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Cyngor Sir i godi pryderon y Pwyllgor hwn.**

Mynegwyd pryder ynghylch yr amserlen ar gyfer trafodaethau'r Pwyllgor ar y gyllideb am 2012/13. Roedd y Comisiynydd Byron Davies yn cytuno bod 30 Tachwedd yn hwyr efallai, ond ychwanegodd bod nifer o ffactorau ar hyn o bryd y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth, nid yn lleiaf y ffaith mai dim ond setliad dros dro yw'r setliad gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Davies at gyfarfod agored o'r Bwrdd Rhaglen Gwella a gynhelir ar 14 Tachwedd 2011. Roedd yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r aelodau fynychu ac estynnodd wahoddiad i bob aelod fod yn bresennol yn y cyfarfod. **CYTUNWYD y byddai'r Comisiynydd Davies yn dod i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar 10 Tachwedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ddatganiad cyllidebol 2012/13.**

Dywedodd y Comisiynydd Giannasi bod llawer o gynnydd wedi ei wneud mewn amser byr. Cyfeiriodd at archwiliad sgriwtini a oedd ar y gweill ac awgrymodd ffyrdd y gallai'r Pwyllgor symud ymlaen gyda'r broses e.e.:

- Dangos Asesiadau Strategol Tymor Hir
- Sgriwtineiddio'r hyn sydd i ddod yn hytrach na'r hyn sydd wedi digwydd
- Ymagweddu yn seiliedig ar risg – canolbwyntio ar y Broses Rheoli Risg

Draft

- Swyddogaeth Gymunedol
- Canolbwyntio ar weithio mewn Partneriaeth
- Bwrdd Gwasanaeth Lleol – eu dal yn gyfrifol
- Edrych ar y Broses Gydweithredu
- Sgriwtineiddio'r meysydd Cwynion/Adfer Gwasanaethau – llythyrau a galwadau gan y cyhoedd
- Bod yn fodlon dal y Comisiynwyr i gyfrif.

Cododd yr Aelodau y cwestiynau / pwyntiau isod:-

- Pwy fedr y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ofyn iddynt am eu sylwadau
- Gwahodd Toyota i'r Pwyllgor – canolbwyntio ar wella perfformiad a gwthio'r ffiniau
- Bod y Bwrdd Adfer yn mabwysiadu dull "gwaelod i fyny".

Dywedodd y Comisiynydd Davies ei fod wedi cael cyfarfod da gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a bod llawer o waith wedi ei wneud. Estynnodd wahoddiad unwaith yn rhagor i'r Aelodau ddod i'r cyfarfod o'r Bwrdd Gwella i weld y cynnydd sy'n cael ei wneud. Roedd yn credu ei fod yn bwysig gwella'r perfformiad yn fewnol yn y lle cyntaf cyn cymharu perfformiad yn y sector preifat. Ychwanegodd y byddai'n fwy na bodlon esbonio a rhoi blas o siwrnai'r Bwrdd Gwella i'r Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Comisiynydd Giannasi fod y Gofrestr Risg bron wedi ei chwblhau a bod risgiau lefel isel wedi eu hasesu.

**CYTUNWYD y byddai'r Gofrestr/Proses Risg yn cael ei thrafod yn y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ar 14 Ionawr 2012.**

Nododd Aelodau bod adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a diweddariad ar y sefyllfa ynghylch cyllideb 2012/13 gan y Comisiynydd Byron Davies ar raglen y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 10 Tachwedd 2011.

Draft

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**